# Ffilm Cymru Wales
# Cronfa Prosiect Addysg 2022-23
# Canllawiau

Cynnwys


**Cyflwyniad** ... 2
    **Anghenion Mynediad** ... 2
    **Manylion Cyswllt** ... 2
**Cyflwyniad** ... 3
**Beth yw Addysg Ffilm?** ... 5
**Pwy all ymgeisio?** ... 6
**Beth yw pwrpas y gronfa hon?** ... 7
**Costau Cymwys** ... 9
    **Gallwn ariannu** ... 9
    **Ni allwn ariannu:** ... 9
**Faint o gyllid sydd ar gael?** ... 10
**Sut ydw i'n ymgeisio?** ... 11
**Beth sy'n digwydd nesaf?** ... 13
    **Cyflwyno Ceisiadau** ... 13
    **Sut byddwn yn asesu eich cais?** ... 13
    **Y camau nesaf** ... 14
    **Cwynion, Adborth Ac Apeliadau** ... 14
**Cyflwyno Adroddiad** ... 15
**Diogelu Data** ... 15

# Cyflwyniad

## Anghenion Mynediad

I ymgeiswyr sydd ag anghenion mynediad, er enghraifft unigolion B/byddar, trwm eu clyw, Anabl neu'n bobl niwroamrywiol, a phobl sydd â nam ar eu golwg, mae rhagor o gefnogaeth ar gael er mwyn cwblhau cais. Er enghraifft, gallwn gyflenwi costau dehonglwr BSL er mwyn i chi cynnal cyfarfod gyda ni cyn i chi wneud cais, neu gynnig cefnogaeth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig. Sylwch na allwn gyflenwi costau ble mae cyllid arall eisoes ar gael e.e. cefnogaeth Mynediad i Waith. Ni allwn chwaith gyflenwi costau prynu caledwedd neu feddalwedd.

I'r rheiny sydd ag angion mynediad, gallwn hefyd dderbyn ffurflenni cais drwy'r post, neu atebion mewn fformatau amgen fel fideo byr neu ddec sleidiau. Dylid cytuno ar y fformat gyda ein tîm cyn cyflwyno'r cais.

Cysylltwch â Nicola Munday, Rheolwr Cynulleidfa & Addysg Ffilm Cymru, gan ddefnyddio'r manylion isod er mwyn trafod eich anghenion cyn i chi wneud eich cais.

## Manylion Cyswllt

Mae'r Gronfa Addysg Ffilm yn cael ei rheoli gan adran Cynulleidfa & Addysg Ffilm Cymru.

**Nicola Munday**
Rheolwr Cynulleidfa & Addysg
nicola@ffilmcymruwales.com

## Cyflwyniad

Ein nod yw datblygu sector a diwylliant ffilm cynaliadwy sy'n berthnasol i bawb ledled Cymru.

Mae'r galwad agored hwn i'r Gronfa Prosiect Addysg Ffilm yn gwahodd cynigion am brosiectau addysg ffilm eithriadol sy'n ysbrydoli dysgu drwy ac am ffilm.

Mae Ffilm Cymru yn cefnogi prosiectau sy'n ysbrydoli pobl ledled Cymru i gael mynediad at, i fwynhau, deall, creu, archwilio a rhannu ffilm gydol eu bywyd. Mae addysg ffilm yn chwarae rhan ganolog yn y modd y gallwn ddeall ffilm a sut mae straeon yn cael eu hadrodd drwy'r cyfrwng amlbwrpas hwn. Mae'r ddelwedd symudol yn cynnig gwybodaeth, yn addysgu ac yn adloni, ac mae'r ffordd yr ydym yn dadadeiladu ffilm yn effeithio ar sut yr ydym yn dehongli'r byd o'n cwmpas.

Mae ymwneud ag addysg ffilm yn ein cynorthwyo i ddysgu sgiliau beirniadol, diwylliannol a chreadigol i'r cyfranogwyr, yn ogystal â sgiliau digidol a sgiliau cyfathrebu. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd rhai cyfranogwyr yn chwilio am gynnwys ffilm arall fel aelodau o gynulleidfa neu am gael eu hysbrydoli i gymryd eu camau cyntaf wrth fentro ar yrfa mewn ffilm – gan ddarparu manteision diwylliannol a / neu alwedigaethol ehangach.

Dylai ceisiadau ddangos cynllun cyflwyno clir o weithgareddau (damcaniaethol ac ymarferol) sy'n dangos 'gwneud ffilmiau' fel arfer creadigol tra'n hyrwyddo gwerth diwylliannol a dealltwriaeth feirniadol o ffilm fel ffurf gelfyddydol a thestun yn ei rhinwedd ei hun.

Rydym yn annog ceisiadau sy'n gwella mynediad i addysg ffilm. Gall hyn fod oherwydd diffyg sefydliadau diwylliannol yn yr ardal; neu anfantais ariannol; neu oherwydd bod pobl yn cael eu gwthio i'r cyrion. Efallai y bydd ymgeiswyr am gyfeirio at ein cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Un waith yn unig bydd Ffilm Cymru yn annog ceisiadau yn ystod 2022-23.

**Y dyddiad cau i gyflwyno ceisidau yw 8 Awst 2022.**

Os oes gennych bwysau amser penodol sy’n golygu bydd angen i’ch cais gael ei ystyried yn gynharach, cysylltwch â Ffilm Cymru i drafod y posibilirwydd o gyflwyno eich cais y tu hwnt i ffiniau’r amserlen hon.

Yn 2022-23, mae’r alwad yn agored i geisiadau lle gellir gofyn am hyd at £22,000 (hyd at 90% o gyfanswm y costau) i gefnogi gweithgaredd sy’n digwydd ym mhob rhanbarth o Gymru – y De, y Canolbarth a Gogledd Cymru. Os yw'ch prosiect yn cael ei gynnal mewn sawl rhanbarth, mae croeso i chi wneud cais am yr uchafswm ar gyfer pob rhanbarth rydych chi'n gweithio ynddo.

Er enghraifft, os ydych yn bwriadu gweithio mewn dau ranbarth (y De a Chanolbarth Cymru) gallwch wneud cais am hyd at £44,000 ac ati. Yn yr un modd, os ydych yn cynnig gweithio mewn tri rhanbarth (y De, y Canolbarth a Gogledd Cymru) gallwch wneud cais am hyd at £66,000.

Mae’r cyllid hwn a ddefnyddir i gefnogi Prosiectau Addysg Ffilm yn arian loteri, wedi’i ddirprwyo gan y BFI, ac mae rheolaeth Ffilm

Cymru o’r gronfa hon yn cael ei chefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru a’r BFI.



## Beth yw Addysg Ffilm?

Mae Ffilm Cymru Wales yn diffinio addysg ffilm fel gweithgareddau (damcaniaethol neu ymarferol) sy’n annog pobl i allu cael mynediad i ffilm, ei mwynhau, ei deall, ei chreu, ei harchwilio a’i rhannu drwy gydol eu hoes. Yn ôl ein diffiniad ni, mae addysg ffilm yn cynnwys y meysydd dysgu canlynol:

- **Arfer Creadigol:** Archwilio gwneud ffilm fel arfer creadigol, gan ddangos y broses o'r sgript i'r sgrîn a galluogi pobl i ddefnyddio ffilm ar gyfer eu creadigrwydd eu hunain.
- **Dealltwriaeth Feirniadol:** Creu cyfleoedd i wylio, dadadeiladu, dadlau a thrafod ffilm a’r materion sy’n codi yn ei sgil, er mwyn datblygu iaith a llythrennedd ffilm.
- **Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol:** Datblygu cynulleidfaoedd y dyfodol ar gyfer ffilm annibynnol ac annog y cyfranogiad ehangaf posibl yn niwylliant ffilm Cymru.

Ers 2006, mae Ffilm Cymru wedi cefnogi addysg ffilm yng Nghymru trwy gyllid prosiect galwad-agored a chydweithio strategol gyda

sefydliadau cenedlaethol eraill gan gynnwys Into Film Cymru. Rydym yn rhannu egwyddorion sylfaenol Addysg Ffilm fel yr amlinellwyd yn "Fframwaith ar gyfer Addysg Ffilm" ("Framework for Film Education") y BFI a grëwyd mewn cydweithrediad â sefydliadau ledled y DU. Rhain yw:

- The Pwysigrwydd prosiectau addysg ffilm cynhwysol a hygyrch, gan archwilio theori a phroses greadigol ffilm.
- Adnabod elfennau unigryw ffilm – fel ffurf gelfyddydol a thestun, gyda'i hiaith, ei hanes a'i estheteg ei hun.
- Yr hawl i bob plentyn a pherson ifanc brofi, dysgu am a gwerthfawrogi ffilm trwy strwythurau addysg ffurfiol ac amgylcheddau anffurfiol yn y cartref ac yn eu cymuned.

Darllenwch ragor am y 'Fframwaith ar gyfer Addysg Ffilm' yma.

## Pwy all ymgeisio?

Ymarferwyr Addysg Ffilm Annibynnol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac sy'n gweithio i ehangu cyrhaeddiad addysg ffilm yng Nghymru.

Mae Ffilm Cymru yn diffinio 'ymarferwyr addysg ffilm' fel unigolyn annibynnol (nad yw'n cael ei gyflogi fel athro mewn ysgol, mewn sefydliad AU neu AB) sydd â hanes o gyflawni prosiectau addysg ffilm o safon.

Mae croeso i'r sefydliadau neu'r unigolion hynny sydd â phrofiad cyfyngedig mewn addysg ffilm gwblhau Mynegiant o Ddiddordeb, yn enwedig lle gall sgiliau fod yn drosglwyddadwy a lle mae'r unigolyn yn berchen ar 'brofiad byw' eang. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gael cyfrif banc busnes gan na allwn drosglwyddo arian i gyfrifon personol nad ydynt yn gysylltiedig â busnes.

Gall Ffilm Cymru gynnig cyngor ar rwydweithiau, hyfforddiant a/neu fentora, lle bo’n berthnasol, yn y cam cyn-ymgeisio.

Yn wahanol i gynllun Dysgu Creadigol Cyngor Celfyddydau Cymru, ni allwn dderbyn ceisiadau a arweinir gan ysgol neu sefydliad addysg. Fodd bynnag, rydym yn croesawu ymholiadau gan ysgolion sydd am ddatblygu cynnig, ac efallai y byddwn yn gallu cefnogi modd o ddarganfod ymarferwyr addysg ffilm i gydweithio ac arwain ar y cais.

## Beth yw pwrpas y gronfa hon?

Mae Cronfa Prosiect Addysg Ffilm galwad-agored Ffilm Cymru yn gwahodd cynigion ar gyfer prosiectau addysg ffilm cyfranogol, uchelgeisiol sy’n cael eu cynnal y tu mewn neu’r tu allan i’r ystafell ddosbarth, yng Nghymru.

Yn 2022-23, byddwn yn canolbwyntio ar geisio ymgysylltu â phobl ifanc 11 – 18 oed – fel y gallwn olrhain datblygiad dilyniant personol unigolion yn well wrth iddynt ddilyn llwybr blynyddoedd ffurfiannol eu haddysg. Fodd bynnag, ni fyddwn yn eithrio cynigion sy’n anelu at ymgysylltu â dysgwyr gydol oes – sy’n nodi eu bod yn f/Byddar, yn anabl yn addysgol, yn awtistig, neu sy’n byw ag anabledd – gan ein bod yn credu bod llawer o waith i’w wneud o hyd i wella hygyrchedd a lledaenu llythrennedd ffilm / gwneud ffilm sylfaenol gyda chymunedau ymylol ledled Cymru, er nad dyma fydd ein prif ffocws.

Ein nod yw ymgysylltu’n ddyfnach â chyfranogwyr, trwy weithio’n fwy ‘manwl’ dros gyfnod o 6 mis, o leiaf, i uchafswm o gyfnodau o 9 mis. Mewn cyd-destun ysgolion, gall hyn olygu isafswm o ddau dymor ysgol ac uchafswm o 3 tymor ysgol. Fesul rhanbarth, gofynnwn i bob cynnig anelu at ymgysylltu â 150 o gyfranogwyr mewn o leiaf 200 o oriau dysgu.

Eleni, mae’n rhaid i bob prosiect a ariennir:

- Sicrhau bod y cyfranogwyr yn ymgysylltu’n ystyrlon â llythrennedd ffilm, trwy wylio o leiaf tair ffilm nodwedd neu set o ffilmiau byr (lleiafswm o 9) fydd yn cynnwys digon o amser i ddadadeiladu’r ffilmiau hyn gan ddefnyddio fframweithiau iaith ffilm.
- Archwilio ffyrdd y gall cyfranogwyr barhau i wylio ffilmiau annibynnol, trwy gyflwyno cyfranogwyr i’w diwylliant ffilm lleol (e.e. darparu gwybodaeth am rhaglen fyw a digidol eu sinema(au) lleol a chodi ymwybyddiaeth am wyliau ffilm ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru).
- Codi ymwybyddiaeth am yrfaoedd ffilm a theledu yng Nghymru drwy gynnwys, yn eich amserlen, amser i dîm Ffilm Cymru gynnal sesiwn benodol ar hyn. Mae’n rhaid i ymarferwyr sy’n cael eu hariannu hefyd gefnogi Ffilm Cymru i ymgysylltu â chyfranogwyr wedi gorffen y prosiect trwy gasglu data’n well a rhannu unrhyw waith cyfathrebu.
- Arddangos yr arfer o wneud ffilmiau. Bydd cyfranogwyr yn gwneud eu ffilmiau byr eu hunain (fel colectif neu mewn grwpiau) o'r sgript i'r sgrîn, gan ddatblygu eu byrddau stori, sgriptiau, technegau cyn-gynhyrchu, cynhyrchu, ôl-gynhyrchu eu hunain.

Dylai ceisiadau arddangos cynllun cyflwyno clir ar gyfer addysg ffilm, a dylent amlinellu gweithgareddau (damcaniaethol ac ymarferol) sy'n arddangos gwneud ffilmiau fel arfer creadigol tra'n hyrwyddo gwerth diwylliannol a dealltwriaeth feirniadol ffilm fel ffurf gelfyddydol a thestun yn ei rhinwedd ei hun.

# Costau Cymwys

## Gallwn ariannu

- Film Ffioedd ymarferwyr Addsg Ffilm
- Deunyddiau ac adnoddau
- Teithio a threuliau
- Tanysgrifiadau meddalwedd a gwasanaethau ar-lein
- Ffioedd prif siaradwyr ac arbenigwyr y diwydiant
- Costau swyddfa a gorbenion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno'r prosiect addysg ffilm
- Llogi offer, lle nad ydych eisoes yn berchen ar offer
- Hyfforddiant a mentoriaeth DPP
- Llogi lleoliad a cit ar gyfer gweithdai ac arddangosiadau
- Gweithgaredd monitro a gwerthuso
- Ffioedd ysgrifennu ar gyfer creu adnoddau newydd, gan gysylltu â gweithgaredd cyfranogol
- Costau sy'n gysylltiedig â mynediad a chynhwysiant i gyfranogwyr a'r tîm cyflwyno (e.e. dehonglwyr BSL, bwrsariaethau, cyfieithu, gofal plant, teithio a lluniaeth ac ati)
- Addysg ffilm gyfranogol sy'n digwydd mewn ysgolion, mewn lleoliadau cymunedol a/neu ar-lein (sylwer bod yn rhaid i geisiadau gael eu harwain gan Ymarferwyr Addysg Ffilm gan na allwn ariannu ysgolion yn uniongyrchol)

## Ni allwn ariannu:

- Gweithgaredd a gynhelir y tu hwnt i Gymru
- Gweithgaredd sydd eisoes wedi digwydd neu nwyddau a gwasanaethau sydd eisoes wedi cael eu talu adeg cyflwyno'r cais
- Ysgolion neu sefydliadau addysg yn uniongyrchol
- Gweithgaredd nad yw'n gysyllteidig â ffilm neu'r ddelwedd symudol

- Cymorth ar gyfer gwariant cyfalaf (h.y. prynu offer a ddefnyddir y tu hwnt i gyfnod y prosiect)
- Gweithgaredd masnachol, gan gynnwys prosiectau sydd angen 'ffî' gan gyfranogwyr er mwyn gwneud elw
- Cost llogi offer pan fo'r offer eisoes yn eiddo i'r sefydliad neu'r ymarferydd
- Gweithgaredd a fyddai fel arfer yn cael ei gefnogi gan gyllid arall neu incwm sefydliadol (er enghraifft, costau staff mewn ysgolion, cynghorau neu sefydliadau a ariennir).

## Faint o gyllid sydd ar gael?

**Yn ystod 2022-23 bydd cyfanswm o £66,000 ar gael drwy'r Gronfa Prosiect Addysg Ffilm.**

Fesul rhanbarth, De, Canolbarth a Gogledd Cymru, gall ymarferwyr wneud cais am uchafswm o £22,000, ac rydym yn croesawu cynigion gan y rhai sy'n gweithio mewn mwy nag un rhanbarth yng Ngymru.

Gallwn gefnogi hyd at 90% o gyfanswm cyllideb y prosiect. Gall balans yr arian cyfatebol gynnwys cymorth mewn da, gydag esboniad o sut y cyfrifwyd y cymorth hwnnw (er enghraifft, y ffî arferol i logi lleoliad a ddarparwyd yn rhad ac am ddim).

Mae cyllid a ddarperir gan Ffilm Cymru ar gyfer Prosiectau Addysg Ffilm ar ffurf grant nad oes angen ei ad-dalu.

Mae hon yn gronfa hynod gystadleuol ac felly rydym yn annog ymgeiswyr i wneud y gorau o unrhyw gyllid partneriaeth trydydd parti, gan leihau'r cyllid y gofynnir amdano gan Ffilm Cymru, lle bynnag y bo modd.

# Sut ydw i'n ymgeisio?

Un waith yn unig bydd Ffilm Cymru'n gwahodd ceisiadau yn ystod 2022-23.

**Y dyddiad cau i gyflwyno ceisidau yw 8 Awst 2022.**

Os oes gennych bwysau amser penodol sy'n golygu bydd angen i'ch cais gael ei ystyried yn gynharach, cysylltwch â Ffilm Cymru i drafod y posibilirwydd o gyflwyno eich cais y tu hwnt i ffiniau'r amserlen hon. Ni allwn warantu asesu ceisiadau yn gynt na'r dyddiad cau cyhoeddedig, ond byddwn yn ceisio'n gorau i wneud hynny lle bo modd.

## 1. Datgan Diddordeb

Rhaid i bob ymgeisydd gysylltu â Thîm Ffilm Cymru i drefnu cyfarfod byr neu alwad ffôn i 'Ddatgan Diddordeb'. Mae'r sgwrs hon yn gyfle i archwilio eich prosiect yn y camau cynnar, ac i ddechrau meddwl sut y gallai eich nodau ac amcanion gyd-fynd ag amcanion y Gronfa Prosiect Addysg Ffilm. Os nad hon yw'r gronfa iawn i chi, bydd yn arbed amser i chi wrth i chi ddatblygu cais, ac efallai y cewch adborth ac awgrymiadau am gysylltiadau defnyddiol yn y broses.

Gellir cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb ar unrhyw adeg hyd at 1 wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

I ofyn am gyfarfod/galwad ffôn, anfonwch e-bost at y tîm gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon.

## 2. Cyflwyno Cais

Unwaith y bydd y sgwrs Datgan Diddordeb wedi'i chynnal gellir cyflwyno eich cais. Gellir lawrlwytho ffurflenni cais oddi ar wefan Ffilm Cymru.

Bydd y cais a gyflwynir yn cynnwys:

- Ffurflen Gais wedi'i chwblhau
- Amcanion y prosiect, gyda chynllun cyflawni ymarferol
- Cyllideb y Prosiect (incwm a gwariant arfaethedig)
- CVs a rhifau tystysgrifau DBS yr unigolion a fydd yn cyflwyno elfennau cyfranogol allweddol
- Cofrestr Risg
- Polisïau gan gynnwys Polisi Iechyd a Diogelwch gyda diweddariad Covid-19, Cynaliadwyedd, Polisïau Diogelu Plant a Phobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed a Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.



# Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cyflwyno Ceisiadau**

Rhaid cyflwyno pob cais i addysg@ffilmcymruwales.com - ni allwn dderbyn unrhyw geisiadau a anfonir i gyfeiriadau e-bost eraill neu drwy'r post, ac eithrio lle y cytunwyd ymlaen llaw mewn ymateb i gais am Gymorth Mynediad.

Bydd e-bost yn cadarnhau i ni dderbyn eich cais yn cynnwys rhif cyfeirnod a dolen i'n ffurflen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei anfon atoch. Bydd angen i'r prif ymgeisydd lenwi'r ffurflen hon i gwblhau eich cais, er bod y cwestiynau'n cynnwys opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Gallwch ddarllen rhagor am Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ffilm Cymru yma.

Cedwir y data a roddwch yn y ffurflen hon yn gyfrinachol ac ar wahân i'ch cais, ac ni chaiff ei ystyried fel rhan o'r broses asesu. Rydym yn casglu'r data fel y gallwn olrhain a ydym yn cyrraedd holl rychwant poblogaeth Cymru, ac yn cyflawni amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae hefyd yn ein helpu i adrodd yn ôl i'n cyllidwyr, y BFI a Chyngor Celfyddydau Cymru, ac i'r cyhoedd. Ni chewch eich adnabod yn bersonol yn unrhyw un o'r dogfennau hyn.

## Sut byddwn yn asesu eich cais?

Bydd pob cais am gyllid yn cael ei ystyried gan banel sy'n cynnwys Prif Weithredwr, Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg, a Chydlynydd Cynulleidfa ac Addysg Ffilm Cymru Wales.

Bydd y penderfyniadau i ariannu, ac am ba swm, yn cael eu pennu mewn asesiad yn erbyn yr amcanion uchod (fel y'u diffinnir yn yr adran 'Beth yw pwrpas y gronfa hon?'), yn ogystal â hyfywedd cyffredinol y cynnig, a'i botensial i wella mynediad Cynulleidfaoedd Cymru i ffilm.

Gall y broses asesu gymryd hyd at 6 wythnos o'r dyddiad cau. Ni ddylech gynllunio i ddechrau'r prosiect nes eich bod wedi cael cadarnhad o'r cyllid a'r swm, a all fod yn llai na'r swm y gofynnwyd amdano.

## Y camau nesaf

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu trwy e-bost neu alwad ffôn. Dilynir hyn gan lythyr cynnig yn cadarnhau'r symiau ac unrhyw wybodaeth neu amodau dyfarnu sy'n weddill.

Unwaith y byddwch wedi dychwelyd llythyr Cynnig wedi'i lofnodi, ac wedi bodloni unrhyw gais am newidiadau neu wybodaeth bellach, bydd Ffilm Cymru Wales yn cyhoeddi Cytundeb Ariannu, a fydd yn adlewyrchu nodau ac amcanion y cais yn ogystal â manylion gofynion ac amserlenni ar gyfer y prosiect. Bydd hefyd yn cynnwys y broses werthuso a'r telerau ad-dalu sydd ond yn berthnasol os bydd yr amodau wedi eu torri a heb eu cywiro.

Yn anffodus, ni all Ffilm Cymru Wales ariannu pob cais a gyflwynir, fodd bynnag, ein nod yw cynnig adborth ar bob cais. Mae croeso i geisiadau aflwyddiannus ailymgeisio yn y rownd ddilynol yn wedi'r cyfnod adborth hwn.

## Cwynion, Adborth Ac Apeliadau

Os hoffech gynnig unrhyw adborth, gwneud cwyn neu apelio yn erbyn y penderfyniad, mae ein gweithdrefn i'w gweld yma. Nodwch os gwelwch yn dda: Mae hon yn rhaglen a ariennir gan y loteri.

## Cyflwyno Adroddiad

Mae'n ofynnol i bob ymgais lwyddiannus gyflwyno adroddiad terfynol hunanasesu o fewn dau fis i gwblhau'r prosiect. Bydd yr adroddiad terfynol hwn yn cynnwys:

- Gwerthusiad Naratif byr (yn myfyrio ar lwyddiannau, heriau a'r hyn a ddysgwyd)
- Adroddiad Incwm a Gwariant Gwirioneddol
- Data Personol y Cyfranogwyr, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer olrhain a gwerthuso effaith hydredol
- Data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant cyfranogwyr (EDI)
- Data EDI ymarferwyr cyflenwi a phersonél cysylltiedig
- Ffurflen Astudiaeth Achos (gan gynnwys delweddau a deunyddiau cyhoeddusrwydd)

Bydd y tîm Cynulleidfa ac Addysg mewn cysylltiad â chi yn y cyfnod sy'n arwain at ac yn ystod y prosiect er mwyn cynnig cefnogaeth a chyngor ar y prosiect ac i ateb unrhyw ymholiadau.

Ein nod yw ymweld â phob sefydliad a ariennir, pan fo modd.

## Diogelu Data

Bydd yr holl ddata a gesglir fel rhan o'r Datganiad o Ddiddordeb, y broses ymgeisio, cyflwyno data cydraddoldeb ac yn ystod cyfnod y prosiect yn cael eu trin yn unol â Pholisi Diogelu Data a Phreifatrwydd Ffilm Cymru Wales. Mae rhagor o wybodaeth a'r polisi llawn ar gael yma.